

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/11/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad) David Andrew Parry Greta Hughes Claire Russell-Griffiths
Gwenllian Davenport Alan Harper-Smith Thomas Victor Jones William Roger Jones
Hughes
Ann L Williams Pat Humphreys (Clerc)
(Cyfieithydd)

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llawn i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. Ymddiheuriadau

Ian Goronwy Williams, Alaw Ceris, William Penri Jones.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim.

3. Cofnodion Pwyllgor 25/10/2021

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: Thomas Victor Jones Eilio: Gwenllian Davenport Hughes

4. Unrhyw Fater Brys

Dim.

5. Datblygiad Solar PV Lôn Pin

Cafwyd ymateb gan Chris Bale i'r cwestiynau a anfonwyd iddo yn dilyn pwyllgor diwethaf ac fe wnaeth y clerc ei flaenyrru i'r aelodau iddynt gael eu ddarllen cyn y pwyllgor, ni chafwyd llawer o amser i wneud hynny oherwydd derbyniwyd yr ymateb diwrnod cyn y pwyllgor. Mae gan Alan Harper-Smith fwy o gwestiynau yn dilyn yr ymateb yma ac mae o am ei yrru i'r clerc ar ôl y pwyllgor. Mae Gwenllian Davenport Hughes wedi anfon ebost defnyddiol iawn i'r clerc heddiw hefo pwyntia dylia'r cwmni ddilyn i gynnal bio-amrywiaeth ar y safle a diolchodd y cadeirydd iddi am y wybodaeth. Mae Greta Hughes wedi edrych i mewn i'r cwmni ar y we a Chris Bale ydi'r unig reolwr a tydi hi ddim yn edrych fel bod gan y cwmni yr adnoddau i gynnal prosiect o'r fath sy'n creu pryder iddi. Un person maent yn bwriadu cyflogi felly nid oes budd lleol ohonno i Lanbedrog o gwbl. Mae'r cadeirydd wedi edrych i fewn i'r cwmni hefyd ac mae'n edrych nad oes arian tu cefn i'r cwmni o gwbl ac fe ddywedodd Chris Bale wrth y cadeirydd na chwilio am fuddsoddwyr y byddant unwaith y bydd y cais wedi cael ei basio. Gan ei fod yn mynd i amharu ar olygfeydd i fewn ac allan o'r AHNE mae Thomas Victor Jones wedi tynnu sylw pwyllgor yr AHNE i hyn ac os y bydd y cais yn llwyddiannus maent am edrych i fewn i'r mater. Mae Alan Harper-Smith yn ei gweld yn ddiddorol mai'r unig reswm maent wedi dewis Llanbedrog ydi oherwydd cysylltiad i'r grid a bod y tir feddiannwr yn fodlon rhentu'r tir iddynt. Mae eisiau diolch i Chris Bale am ei ymateb ond mae'n amlwg fod mwy o gwestiynau yn codi ac angen eu gofyn.

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/11/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Penderfyniad: pawb i yrru eu cwestiynnau i'r clerc iddi hi gael eu rhoi at eu gilydd a drafftio llythyr arall i Chris Bale, y clerc i anfon y llythyr i'r aelodau yn gyntaf ac os yw pawb yn hapus ei yrru i Chris Bale a gofyn y tro yma iddo ymateb erbyn yr ail wythnos ym mis Ionawr er mwyn i bawb gael cyfle i edrych ar yr ymateb cyn pwyllgor Ionawr.

6. Cyllideb 2022-2023

Mae cyllideb wedi cael ei greu drwy edrych ar y gwariant am y flwyddyn llawn ddiwethaf sef 2020-2021 a gwariant 2021-2022 hyd yma ac mae'r clerc wedi anfon copi ohoni i bawb cyn y pwyllgor ac fe aeth y cadeirydd drwy'r ffigyrau.

Mae'r ffigyrau ar gyfer torri llwybrau, torri cae chwarae, cae pentre llan a torri'r fynwent wedi cael eu gostwng oherwydd bod prisiau cytundeb wedi cael eu derbyn a'u bod yn sylweddol llai na beth sydd wedi bod ar y gyllideb ar eu cyfer y blynyddoedd a fu ac mae'r gwaith ychwanegol hefyd wedi cael ei ostwng gan fod hyn yn ddigonol ar gyfer y gwaith. Mae ffigwr ar gyfer toiledau a cyflog y clerc yn aros yr un fath ac mae'r ffigwr yswiriant wedi cael ei ostwng hefyd oherwydd ei fod eto yn llai na beth sydd wedi cael ei roi ar y gyllideb yn y gorffennol. Mae offer gweinyddol, awdit, ffioedd ac arall unai yn aros yr un fath neu wedi cael eu codi ychydig i gyd fynd gyda gwariant 2020-2021 a gwariant hyd yma yn 2021-2022. Y ddau ffigwr newydd sydd ar y gyllideb yw cyfieithydd a band eang i'r neuadd ac mae'r rhain yn wariant ychwanegol o flwyddyn 2021-2022 ymlaen. Mae arian hefyd wedi cael ei glustnodi ar gyfer y fynwent newydd gan fod angen dechrau ar y gwaith yma yn fuan iawn. Gan fod arian wedi cael ei gyfrannu yn barod i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Boduan ni fydd arian yn cael ei glustnodi ar ei gyfer y flwyddyn nesaf felly mae cyfanswm cyfraniadau wedi cael ei ostwng ychydig. Gofynnodd Alan Harper-Smith os yw'r arian sydd wedi cael ei glustnodi ar gyfer yr hysbysfyrddau yn ddigonol a dywedodd y cadeirydd fod digon o arian ar eu cyfer. Cafwyd cynnig gan Claire Russell-Griffiths i godi'r gyllideb er mwyn cyfrannu arian tuag at y gwelliannau i'r cae chwarae gan ei fod yn anheg disgwyl i rhieni y pentef fod yn gyfrifol am godi'r holl arian tuag ato pan mae Cyngor Cymuned Llanengan wedi codi eu praesept nhw i ail wneud cae chwarae Abersoch yn y gorffennol. Cytunnodd gweddill yr aelodau.

Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i ychwanegu arian at y gyllideb fel cyfraniad at y cae chwarae ac yna derbyniwyd y gyllideb ac awgrymu praesept o £24,000.00.

Cynnig: Claire Russell-Griffiths Eilio: David Andrew Parry

Cytunodd y clerc i gysylltu hefo clerc Cyngor Cymuned Llanengan i holi am ffigyrau cae chwarae Abersoch ac fe wnaeth Thomas Victor Jones atgoffa bawb eto fod modd gwneud cais am grantiau gan yr AHNE tuag at y cae chwarae.

7. A499 Pwllheli i Llanbedrog – llifogydd

Bu llifogydd unwaith eto ychydig o wythnosau yn ôl ar y A499 o Bwllheli i Lanbedrog sef y Briffordd sy'n gwasanaethu yr ochor ddeheuol o Ben Llŷn i gyd ac fe fu'r lôn ar gau y tro hwn am 5 diwrnod. 'Roedd pobol wedyn yn ceisio defnyddio'r lonydd cefn i gyrraedd pen eu taith ac yn treulio oriau yn mynd o amgylch y lonydd cefn ond yn y diwedd yn methu. Mae hyn yn broblem sy'n bodoli ers blynyddoedd lawer ac eto nid oes dim yn cael ei wneud ynglŷn â'r peth. Mae un o gynghorwyr Pwllheli Dylan Bullard wedi tynnu sylw at hyn yn y wasg ac mae'r cadeirydd wedi

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 29/11/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

cysylltu hefo fo i ddatgan pa mor bryderus yw'r Cyngor Cymuned ynglŷn â hyn. Cafwyd cynnig gan y cadeirydd i yrru llythyr i Cyngor Gwynedd â'r Cynulliad i dynnu sylw at y broblem a gofyn am ddatrasiad ar fyrder, a cynnigiodd Thomas Victor Jones i Gynghorau Cymuned/Thref Pen Llŷn i gyd ddod at eu gilydd i lythyru'r Cynulliad â Cyngor Gwynedd iddynt symud ymlaen i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn gan fod y broblem yn bodoli ers degawdau a dim byd yn cael ei wneud yn ei gylich. Mae Gwenllian Davenport Hughes wedi gweld deiseb ynglŷn â hyn ar gweplyfr yn dilyn y llifogydd diweddaraf.

Penderfyniad: y clerc i ddrafftio llythyr a'i yrru i'r aelodau, os ydynt yn hapus hefo'r llythyr y clerc i'w anfon i holl Gynghorau Cymuned a Thref ym Mhen Llŷn i ofyn am eu cefnogaeth i'r llythyr.

Mae'r cadeirydd yn awyddus i'r clerc anfon llythyr arall i Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt ymateb yn gynt pan mae llifogydd a rhoi goleuadau traffic yn eu lle neu cau y lôn yn syth lle bod ceir yn trio mynd drwy'r llifogydd ac yn methu. Nid yw'r arwyddion electroneg yn cael eu rhoi ymlaen chwaith ac felly nid yw'r teithwyr yn ymwybodol o'r perygl, dylai Cyngor Gwynedd fonitro y sefyllfa yn rheolaidd er mwyn ail agor y lôn yn syth pan mae'n saff i wneud hynny er osgoi achosi mwy o aflonyddwch i'r teithwyr.

8. Ffordd o'r A499 tuag at Pentre Llan heibio talcen Tafarn Glyn y Weddw – llythyr Gareth a Menai Evans

Derbyniodd David Andrew Parry gopi o lythyr gan Gareth a Menai Evans ynglŷn â ffordd o'r A499 tuag at Pentre Llan heibio talcen Tafarn Glyn y Weddw a anfonwyd at Steffan Jones Cyngor Gwynedd yn gofyn am ddatrasiad i'r broblem parcio sydd yno yn yr haf a darllenodd y clerc y llythyr allan i'r aelodau.

Derbyniwyd fel gwybodaeth a disgwyl i weld beth fydd ymateb Steffan Jones Cyngor Gwynedd i'r llythyr.

9. Ebost Elis Smits – GwyrddNi

Derbyniwyd ebost gan Elis Smits yn cyflwyno ei hun fel Hwylusydd Cymunedol Gweithredu Hinsawdd Ardal Pen Llŷn gyda GwyrddNi sef mudiad newydd sydd wedi cael ei ddatblygu gan Datbygiadau Egni Gwledig a phartneriaid. Mae'r ebost yn gofyn os ydi Cyngor Cymuned Llanbedrog yn awyddus iddo ddod i wneud cyflwyniad am y mudiad a sut y bydd Cynghorau Cymuned yn gallu bod yn rhan o'r mudiad yma. Mae Thomas Victor Jones yn awyddus iawn iddo ddod i roi cyflwyniad i'r Cyngor Cymuned gan ei fod wedi cyfarfod Elis Smits yn barod mewn un o'r prynhawniau difyr sydd yn cael eu cynnal ym Mhwillheli bob pnaun dydd lau pan fu yn siarad am y mudiad ac mae David Andrew Parry a Greta Hughes yn cytuno.

Penderfyniad: ei wahodd i bwyllgor mis Mawrth i roi cyflwyniad i'r Cyngor Cymuned.

10. Llwybrau

Mae'r clerc wedi bod ar ôl Cyfoeth Naturiol Cymru i geisio cael diweddariad ar y llwybr tân ar Mynydd Tir Cwmwd ac wedi siarad hefo Ian Houston Roberts. Nid oes unrhyw gofnod ganddynt o pwy wnaeth dorri'r llwybr yma yn y gorffennol ac felly gofynnodd os oedd gan unrhyw un o aelodau y Cyngor Cymuned y wybodaeth yma felly addawodd y clerc i holi. Dywedodd hefyd fod 80% o waith Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud hefo afonydd a llifogydd felly fel arfer nid ydynt yn delio hefo rhywbeth fel hyn a tybed os yw'r Cyngor

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/11/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cymuned wedi drysu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru â'r Parc Cenedlaethol. Mae Thomas Victor Jones yn cofio bod cynllun o'r enw Lliw yn Llŷn hefo swyddfa yn Oriol Plas Glyn y Weddw a swyddog yn gweithio yno rhyw ddeg mlynedd yn ôl a tybed mai drwy'r cynllun yma gafodd y llwybr tân ei dorri. Mae Greta Hughes yn cofio hyn hefyd a'u bod yn gwneud arbrawf hefo gadael i lecyn sgwar dyfu ar y mynydd. Mae'r cadeirydd yn nabod y swyddog ac wedi addo ei ffonio i gael mwy o wybodaeth.

11. Y Fynwent

Mae'r cais cynllunio gwreiddiol am y fynwent newydd wedi rhedeg allan ac felly mae'r cadeirydd wedi cyflwyno cais newydd i'r adran gynllunio yn defnyddio yr un cynlluniau ac o'r blaen ac oherwydd ei fod yn gais gan Gyngor Cymuned mae'r ffi yn cael ei hanneru. Mae rhai newidiadau i'r cynlluni sef diddymu'r toiledau â'r goleuadau fel sydd ar y cais gwreiddiol ac felly dim ond un peth sylweddol sydd angen ei wneud sef symud y beipan ddwr sydd yn rhedeg trwy'r safle. Fe fydd rhaid cael cwmni proffesiynol i brisio'r gwaith ond mae'r cadeirydd yn rhagweld y bydd cost sylweddol o tua £50,000.00 i wneud y gwaith i gyd ar y fynwent newydd. Gofynnodd Thomas Victor Jones os oes grantiau ar gael i wneud y gwaith ac fe addawodd y clerc i gysylltu hefo Un Llais Cymru i ofyn, mae'r cadeirydd â'r clerc yn ymwybodol bod modd cael benthyciad di-lôg i wneud y gwaith a'i dalu nôl dros gyfnod o amser. Pwysleisiodd Claire Russell-Griffiths y dylia'r fynwent newydd fod yn flaenoriaeth gan y Cyngor Cymuned oherwydd mae'r hen fynwent yn brysur llewni ac fe fydd lle i gladdu wedi rhedeg allan. Gofynnodd hefyd beth ydi'r sefyllfa gyda tir y fynwent newydd, oes tennant ar y tir ac oes anifeiliaid yn pori ar y tir ac os oes yda ni angen rhoi rhybudd iddynt fynd oddi ar y tir? Mae'r tir angen cael ei ffensio cyn gynted a bo'r modd hefyd felly mae angen edrych i fewn i beth sydd ar bapur ynglŷn â'r tenantiaeth. Mae'r cadeirydd wedi bod ar y gofrestrfa tir ar y we ac wedi gweld fod yr enwau ar y gweithredoedd dal heb gael eu newid ac fe ddywedodd y clerc ei bod wedi siarad hefo Elin Tudur o swyddfa Bryn Martin am hyn heddiw ac mae hi wedi anfon y papurau iddynt ers mis Gorffennaf ond dal heb dderbyn dim byd yn ôl oherwydd maent yn ofnadwy o brysur ar y funud ac nid oes dim y medrith hi ei wneud i gyflymu pethau. Hefyd mae'r cadeirydd wedi siarad hefo cyfreithwyr ynglŷn â rhoi enw y Cyngor Cymuned ar y gweithredoedd ond ar y funud nid yw'n bosibl gwneud hyn dim ond enw unigolion sydd ar y Cyngor Cymuned felly rhagwelir y bydd hyn yn gallu bod yn anghyfleus a costus iawn dros y blynyddoedd i ddod os y bydd yr aelodau sydd a'u henwau ar y gweithredoedd yn gadael y Cyngor Cymuned fe fydd rhaid newid yr enwau eto. Mae Greta Hughes yn ei chael yn annodd creu hyn hefyd ac yn cynnig i'r clerc gysylltu hefo Un Llais Cymru i ofyn hyn hefyd ac mae Thomas Victor Jones yn cytuno hefo hyn.

12. Cae Chwarae

Fe fuodd y cadeirydd yn y cae chwarae i gyfarfod hefo swyddog o Scottish Power i drafod y wifren drydan sydd yn mynd o dan y ddaear. Mi wnaeth y swyddog gael hyd i'r wifren bob ochor i'r fynedfa a dywedodd nad oedd y mapiau sy'n dangos lleoliad y wifren yn 100% a'r unig gyngor oedd ganddo oedd ei bod yn hanfodol pan fydd unrhyw waith tyllu yn cael ei wneud yn y cae chwarae bod y contractwr yn cael copi o'r map ac wedyn bod y contractwr yn gyfrifol am wneud asesiad risc. Dywedodd hefyd bod rhaid i bob contractwr gael y

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 29/11/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

mesurydd sy'n dangos lleoliad wifrau trydan o dan ddaear. Fel arfer nid ydynt yn symud y wifrau yma felly dim ond cadw i'r cyngor a roddwyd ganddo sydd angen. Dywedodd hefyd fod y wifren yn hollol saff os yw rhywun yn tyllu gyda rhaw gan ei bod wedi gorchuddio gan lewis ond os oes contractwr yn tyllu gyda JCB yna fe mae'n hanfodol ein bod yn pasio'r cyngor ymlaen iddynt. Gofynnodd Greta Hughes os yw'n well felly i'r Cyngor Cymuned ddweud na ddyliai unrhyw un wirfoddoli i wneud gwaith tyllu o hyn allan yn y cae chwarae. Mae angen trwsio y ffens wrth y fynedfa a tyllu i osod 2 bostyn i ddal y ffens felly pwy sydd yn mynd i wneud y gwaith yma? 'Roedd Alan Harper-Smith wastad yn meddwl fod unrhyw wifren trydan o dan ddaear i fod o leiaf 2 droedfedd i lawr ac i fod i gael llewis amdani, sydd o leiaf 1 droedfedd uwchben y wifren, i rybuddio pawb o'i lleoliad. Pan fuodd y cadeirydd a David Andrew Parry yn tyllu i roi rhai o'r postiau i drwsio'r ffens yn y cae chwarae yn ystod yr haf fe ddaethant ar draws y llewis yma reit agos at y wyneb sef oddeutu 1 troedfedd i lawr a fe wnaethant roi gorau i dyllu yn syth. Dywedodd Claire Russell-Griffiths bod rhaid bod yn ofalus gan fod angen tynnu offer y cae chwarae rhyw ddydd ac i wneud hynny bydd angen tyllu ac yn gyfreithiol cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw rhannu'r cyngor yma hefo'r contractwyr sy'n gwneud y gwaith ac felly o hyn allan fe fydd rhaid cael contractwr proffesiynol i wneud unrhyw waith yn y cae chwarae. Dywedodd y cadeirydd eto na cyngor y swyddog o Scottish Power oedd ei bod yn hanfodol i unrhyw gontractwr fydd yn gwneud gwaith tyllu yn y cae chwarae gael map gan y Cyngor Cymuned a'i fod yn dweud mewn unrhyw gytundeb fydd rhwng y contractwr â'r Cyngor Cymuned bod rhaid iddo wneud yn saff ei fod yn cael hyd i leoliad y wifren cyn dechrau unrhyw waith, bod yr offer iawn ganddo, ei fod yn gymwys i'w defnyddio a bod yr yswiriant iawn ganddo i ymdrin â bob dim. Gofynnodd Claire Russell-Griffiths beth sydd angen ei wneud rwan yn y cae chwarae ac atebodd y cadeirydd fod angen tyllu i osod un postyn yno eto er mwyn gorffen cau y ffens wrth y fynedfa ac oherwydd bod y wifren yn y lleoliad yna nid yw'n hapus i neb ond gontractwr profiadol i wneud y gwaith. Mae David Andrew Parry yn cytuno os yw'r gwaith tyllu yn un fydd angen JCB yna i lynnu i gyngor y swyddog o Scottish Power ond nid yw yn gweld dim byd o'i le os mai dim ond tyllu 1 troedfedd i lawr sydd angen hefo rhaw i osod un postyn yn y ddaear ac mae ef yn fodlon gwneud hynny. Dywedodd Alan Harper-Smith os na postyn pren sydd yn cael ei roi yno yna does dim angen tyllu dim ond ei guro i'r ddaear ac fe wnaiff osgoi y llewis. Gofynnodd David Andrew Parry beth oedd yn digwydd hefo'r gweithiwr achlysurol ac atebodd y cadeirydd ei fod wedi bod yn ei weld ond oherwydd y tywydd nid yw wedi cael amser i gychwyn ar y gwaith. Gofynnodd Claire Russell-Griffiths os ydynt am gael contractwr proffesiynol i roi y postyn diwethaf yn ei le er mwyn cau y ffens ac atebodd y cadeirydd ei fod ef a David Andrew Parry yn fodlon gwneud y gwaith gyda rhaw a dywedodd Claire Russell-Griffiths ei bod yn anghyffyrddus iawn hefo huna a dywedodd Greta Hughes yr un fath. Cytunodd William Roger Jones bod y cyngor sydd wedi ei gael gan swyddog Scottish Power yn cael ei basio ymlaen i bob contractwr sydd yn mynd i wneud gwaith tyllu yn y cae chwarae. Gofynnodd Thomas Victor Jones pwy sydd am wneud y gwaith ar y ffens oherwydd mae o angen cael ei wneud ers hir iawn ac mae angen ei sortio cynigiodd y cadeirydd i'r gweithiwr achlysurol wneud y gwaith. Mae'r gweithiwr achlysurol ar yswiriant y Cyngor Cymuned oherwydd ei fod wedi ymddeol a ddim eisiau tynnu yswiriant ei hun allan felly cadarnhaodd Zurich os oedd y Cyngor Cymuned yn rhagweld na fyddent yn talu mwy na £3,000.00 y flwyddyn iddo am ei

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/11/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

waith yna fe fyddai modd iddo gael ei roi ar yswiriant y Cyngor Cymuned. Mae'r cadeirydd a David Andrew Parry yn cytuno os ydynt yn gwirfoddoli i rhoi y postyn diwethaf yma yn y cae chwarae a'u bod nhw yn hapus i wneud huna yna does dim problem.

13. Coronavirus covid-19 – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch

Dim diweddariad felly penderfynwyd i gario ymlaen i gyfarfod ar zoom.

14. Neuadd y Pentref

Gan fod prisiau cytundeb trydan wedi mynd i fyny cafwyd cais gan y cadeirydd i godi prisiau llogi'r neuadd. Fe fydd rhaid ffendio allan beth yw prisiau llogi'r neuadd ar y funud a awgrymodd Thomas Victor Jones ein bod yn gofyn i Barbara Warren. Gofynnodd William Roger Jones pwy sy'n defnyddio'r neuadd gan fod golau yno un noson tua 4 o'r gloch y prynhawn ac eto Barbara Warren fysa yn gwybod yr ateb. Gofynnodd Claire Russell-Griffiths os ydym yn cael unrhyw waith papur ar gyfer y neuadd a dywedodd y clerc ei bod hi yn derbyn datganiad banc bob mis er mwyn iddi fedru rhoi'r ffigyrau blynyddol ar y Comisiwn Elusennau. Er mwyn cael amser i ffendio allan pwy sy'n defnyddio'r neuadd a faint yw'r prisiau ar y funud cynigiwyd i roi'r mater ar agenda mis Ionawr ac mae'r cadeirydd wedi cadarnhau ei fod ef am gysylltu hefo Barbara Warren.

Dywedodd y cadeirydd fod angen coeden nadolig i'r pentref ac mae o wedi archebu hi o Glasfryn ac yn ei phigo i fyny dydd Mercher, fe fydd o angen help i'w rhoi i fyny a dywedodd David Andrew Parry a William Roger Jones eu bod ar gael bora Sadwrn am 10 i helpu.

Taliadau wedi eu Cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£366.73
Pat Humphreys - Llyfr Cofnodion	£37.93
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£195.00
Bin Brown Gwastraff Gardd 2022 – Mynwent Llanbedrog	£36.00
Rhys Jones – Anfoneb torri gwellt Cae Chwarae a Pentref Llan yn unol a'r gytundeb	£1610.00
Ashley Hughes – Dyddiadur 2022	£4.19
D W Roberts – Chwistrellu chwyn laddwr yn y Cae Chwarae	£120.00

Taliadau wedi eu Derbynn

G D Roberts – hawl i godi carreg fedd – Mair Jones Garreg Wen, Llanbedrog	£140.00
---	----------------

Ceisiadau Cynllunio

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/11/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

C21/0149/38/TC – Penrhos Polish Village, Lôn Llanbedrog, Pwllheli. – Cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithiol ar gyfer cartref gofal, cegin ganolog, ystafell fwyta cymunedol, swyddfeydd, eglwys, hundy sgowtiaid, llyfrgell, neuadd a siop, gardd goffa a gofod agored, llety byw yn cynnwys 103 uned preswyl hunan gynhaliol (mewn defnydd gan preswylwyr a staff fel eu prif fan byw) a 4 llety ymwelwyr hunan gynhaliol gyda 17 ystafell.

Dim angen i'r Cyngor Cymuned gyflwyno sylwadau.

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol
2. **Ambiwylans Awyr Cymru** – cais am gyfraniad ariannol
3. **Dawns i bawb** – cais am gyfraniad ariannol
4. **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dinbych 2022** – cais am gyfraniad ariannol.
Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £50.
Cynnig: William Roger Jones Eilio: Thomas Victor Jones

Gofynnodd y cadeirydd i'r clerc os oedd hi wedi cael llyfr cofnodion newydd ac fe ddanghosodd hi y llyfr i bawb ar y sgrin.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.45 y.h.